

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Gwasanaethau Cyhoeddus Public Services

Q10 Michael German: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to ensure the delivery of high-quality public services throughout Wales? OAQ0425(LGPS)

C10 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau y cyflwynir gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ledled Cymru? OAQ0425(LGPS)

The Finance Minister (Sue Essex): We have set out our vision for high-quality, responsive public services in 'Making the Connections'. 'Delivering the Connections', our action plan, was published in June. This action plan means services being centred on people and the community, joining up and simplifying service delivery, and making the most of our resources.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yr ydym wedi nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ymatebol ac o ansawdd uchel yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Cyhoeddwyd 'Cyflawni'r Cysylltiadau', ein cynllun gweithredu, ym mis Mehefin. Golyga'r cynllun gweithredu hwn y bydd gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl a'r gymuned, cydlynu a symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau, a manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau.

Cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus Delivery of Public Services

Q11 Janet Ryder: What priorities has the Minister identified to improve the delivery of public services? OAQ0440(LGPS)

C11 Janet Ryder: Pa flaenoriaethau a nodwyd gan y Gweinidog i wella'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0440(LGPS)

Sue Essex: We set out our vision for high-quality, responsive public services in 'Making the Connections'. Our action plan, 'Delivering the Connections', was published in June 2005 and aims to do just this. We aim to make services more responsive to citizens and communities, to join and simplifying them and ensure better use of resources.

Sue Essex: Nodwyd ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ymatebol ac o ansawdd uchel yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Cyhoeddwyd 'Cyflawni'r Cysylltiadau', ein cynllun gweithredu, ym mis Mehefin 2005 a'i nod yw gwneud yn union hyn. Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau'n fwy ymatebol i ddinasyddion a chymunedau, i'w huno a'u symleiddio a sicrhau defnydd gwell o adnoddau.

Gweithdrefnau Ymgynghori Consultation Procedures

Q12 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on consultation procedures used within local government? OAQ0455(LGPS)

C12 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gweithdrefnau ymgynghori a ddefnyddir gan lywodraeth leol? OAQ0455(LGPS)

Sue Essex: Local authorities use a variety of public consultation procedures. The approaches adopted vary according to circumstances and by authority. I recently commissioned work to develop good practice principles for those within the Welsh public service engaging in public consultations. I intend that the work will be available by autumn 2005.

Sue Essex: Mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o weithdrefnau ymgynghori cyhoeddus. Mae'r dulliau'n amrywio yn ôl amgylchiadau a'r awdurdodau. Yn ddiweddar, comisiynwyd gwaith gennyf i ddatblygu egwyddorion arfer da ar gyfer y rheini o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyhoeddus. Y bwriad yw y bydd y gwaith ar gael erbyn hydref 2005.

Trefniadau Etholaethol Electoral Arrangements

Q13 Janet Ryder: What discussions has the Minister held recently with UK Government Ministers regarding any changes she is considering with regard to electoral arrangements for local government? OAQ0439(LGPS)

C13 Janet Ryder: Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglyn ag unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried o ran trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol? OAQ0439(LGPS)

Sue Essex: I recently met the Local Government Boundary Commission for Wales. The discussion included the forthcoming review of electoral arrangements for county and county borough councils. I asked the commission to consider delaying the process until after the 2008 local elections, but I have not considered any changes to existing electoral arrangements.

Sue Essex: Cyfarfûm â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn ddiweddar. Yr oedd y drafodaeth yn cynnwys yr adolygiad arfaethedig o drefniadau etholiadol ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Gofynnais i'r comisiwn ystyried gohirio'r broses tan ar ôl etholiadau lleol 2008, ond nid wyf wedi ystyried unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol sy'n bodoli eisoes.

Adolygiad Lyons The Lyons Review

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw gynnydd parthed adolygiad Lyons ar adleoli'r sector cyhoeddus? OAQ0450(LGPS)

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister report on any progress concerning the Lyons review on public sector relocation? OAQ0450(LGPS)

Trosglwyddwyd cwestiwn 14, OAQ0450(LGPS), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

Question 14, OAQ0450(LGPS), has been transferred for written answer by the Minister for Economic Development and Transport.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad dîm i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n chwilio am le i symud iddo o dde-ddwyrain Lloegr o dan adolygiad Lyons. Mae rhyw 2,400 o swyddi eisoes wedi'u sicrhau, gan gynnwys 600 i Ystadegau Gwladol a 500 i'r swyddfa basbortau yng Nghasnewydd, a 300 o swyddi yn yr Adran Drafnidiaeth yn Abertawe.

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The Assembly Government established a team to promote Wales as a location for public sector bodies seeking to move from south-east England under the Lyons review. Some 2,400 jobs have already been secured, including 600 for National Statistics and 500 for the passport office in Newport, and 350 Department for Transport jobs in Swansea.

Gwasanaethau Lleol Local Services

Q15 Denise Idris Jones: What action has the Welsh Assembly Government taken to improve the way local services are delivered in Wales? OAQ0469(LGPS)

C15 Denise Idris Jones: Pa gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau lleol yng Nghymru? OAQ0469(LGPS)

Sue Essex: I refer you to the answer that I gave to Lynne Neagle earlier today to OAQ0473(LGPS).

Sue Essex: Fe'ch cyfeiriai at yr ateb a roddais i OAQ0473(LGPS) gan Lynne Neagle.

*Gohiriwyd y cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
The questions to the Minister for Education and Lifelong Learning were deferred.*